

Cofion

- Mae Maldwyn Jones (Cefn Berain) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd – anfonwn ein cofion cywiraf ato. Cyflwynwn ef a'r teulu i ofal yr Arglwydd gan hyderu y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Bob Davies (Llanfair) sydd wedi symud i gartref preswyl Coed Isaf yn Llanrhos yn dilyn cyfnod go faith yn Ysbyty Llandudno. Diolchwn am bob gofal a gafodd tra buodd yno. Gobeithiwn y bydd yn setlo yn y cartref yn fuan iawn ac y bydd yn profi gofal a grym ein gweddiâu drosto.
- Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt hwythau ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarchion arbennig neu gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.

I ddod

- **BARBECIW CIG RHOST A PHWDIN** wedi ei drefnu gan aelodau Capel Peniel yn Derwen Gornel, Peniel, nos Wener, Gorffennaf 25ain, am 6.30 o'r gloch. Pris - £8 i oedolion, £4 i blant dan 14eg. Tocynnau ar gael gan aelodau'r capel neu yn Siop Clwyd.
- **CWRS IEUENCTID (12-15 OED)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 28ain – Awst 1af. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu'r cwrs.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 26ain-27ain yn y Bala. Penwythnos i'r teulu cyfan ac i unigolion o bob oed.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Jeremeia 31:31-34 (BCND tud.719 / BCN: tud.655)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Gorffennaf 2014

Darlleniad y Dydd

Hebraid 1: 1-4

(BCND tud.239 / BCN: tud.220)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Chibai! Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon arbennig heddiw. Rydym yn cael y fraint o groesawu Côr Synod Mizoram atom am y tro cyntaf i Gymru ers 1984! Llawnhawn o gael cwmni ein brodyr a'n chwiorydd o Fizoram, Gogledd Ddwyrain India, a gweddiwn am fendith Duw arnynt yn eu tystiolaeth i Iesu Grist, ac i ninnau wrth i ni gael cyd-addoli gyda hwy.

Rydym fel tîm gweinidogaethol am ddiolch o galon hefyd i bawb sydd wedi bod mor ddygn yn paratoi ar gyfer ein hymwelwyr ym mhob ffordd bosib, ac yn arbennig i Bet am drefnu a phawb sydd wedi rhoi llety i'n cyfeillion dros eu harhosiad ym Mro Aled!

Mae diswyddiad Alun Davies fel gweinidog amaeth yn stori gyfarwydd i ni erbyn hyn. Wedi iddo dderbyn ail gyfle gan Carwyn Jones, y Prif Weinidog, yn dilyn honiadau o gam ddefnyddio'i ddylanwad fel gweinidog yr wythnos diwethaf, llosgodd ei fysedd yr wythnos hon wrth geisio cael manylion ariannol personol am ei wrthwynebwyr gwleidyddol. Cafodd ei ddiswyddo'n ddisymwth gyda nifer yn ei gyhuddo o fod yn hynod o annoeth yn gwneud y fath beth ac yntau wedi dod mor agos at gael ei ddiswyddo wythnos ynghynt.

Yn ein darlleniad ar y cyd o Jeremeia y bore 'ma, mae Duw yn rhoi addewid bendigedig o gyfamod newydd i'w bobl. Addewid y byddai pobl yr Arglwydd yn cael ail-gyfle trwy dderbyn maddeuant wrth iddo Ef anghofio'u pechod am byth. Mae'r cyfamod newydd hwn wedi ei wireddu trwy Iesu Grist wrth iddo Ef farw ar y groes dros bechaduriaid. Oherwydd hynny, mae pawb sydd wedi ymddiried yn Iesu yn derbyn maddeuant llwyr am bob pechod ac anufudd-dod. Oherwydd bod Iesu wedi derbyn y gosb, mae'r Cristion yn cael ei wneud yn iawn gyda Duw – mae'n dod i berthynas newydd gyda'r Arglwydd lle nad oes gelyniaeth, dim ond heddych (Rhufeiniaid 5:1). Ond wrth gwrs, fel yn achos Alun Davies, nid yw'r ail gyfle yn y cyfamod newydd yn rhoi rhwydd hynt i bobl ddiystyru Gair Duw a gwneud beth bynnag y maent eisiau ei wneud. Yn hytrach mae dymuniadau'r Cristion yn newid wrth ddod i berthynas newydd â Duw. Wrth ddod i adnabod yr Arglwydd mae'r Cristion yn newid yn fewnol i fod eisiau ufuddhau i Dduw, i fyw fel pobl sy'n eiddo iddo Ef ac yn dibynnu arno bob dydd. Wrth foli Duw heddiw, gofynnwn am gael profi bendithion y cyfamod newydd yn Iesu Grist, ac ar i gyfraith Duw ddylanwadu mwy a mwy arnom wrth i ni dyfu i garu Crist a byw i'w wasanaethu a'i foli Ef.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma

i-Grist am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth,
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan
yng nghwmni

Côr Synod, Mizoram

Yn ystod y gwasanaeth, bydd y plant a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar, ac yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i **Ganolfan Bro Aled** i gael barbeciw, chwaraeon ac i gymdeithasu. **Dewch â chig (neu beth bynnag ddymunwch inni ei goginio i chi ar y barbeciw) a bara hefo chi, os gwelwch yn dda. Bydd saladau amrywiol wedi eu paratoi ar eich cyfer, diodydd poeth ac oer, a hufen ia i bawb!**

Parcio: Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan ac o flaen y Ganolfan.

Cadair Olwyn: Mae cadair olwyn yn y capel i ddefnydd pwy bydd bynnag fydd ei hangen.

Oedfa o Fawl am 6:00

Oedfa'r hwyr i holl eglwysi'r Ofalaeth
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni

Côr Synod, Mizoram

Cyfle arbennig i gyd-oddoli yng nghwmni'r côr arbennig yma sy'n dod i Gymru am y tro cyntaf ers 1984.

- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Cymdeithasol** - Taith Gerdded hamddenol. Cychwyn ger Capel Coffa Henry Rees, Llansannan am 6.30. *(Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio.)*
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sioned Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi am 10.00. Yn dilyn yr oedfa, bydd pwyllgor i drefnu rhaglen y Gymdeithas am 2014-15.

Saron a Pheniel

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
Rhag-hysbys Bydd paned ar ôl yr oedfa yn Nhanyfron pawns Sul, Gorffennaf 27ain i gasglu arian at Tearfund.

Henllan a Groes

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sadwrn Bydd Trip yr Ysgol Sul yn mynd i Landudno – cychwyn o'r neuadd am 12.45 a chyfarfod yn Afon Conwy i gael swper am 6.30. Enwau, os gwelwch yn dda, i Erina erbyn dydd Gwener.

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghewn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.